LLEWYRCHED FELLY EICH GOLEUNI

# Y Llusern

Eglwys Ebeneser Mawrth / Ebrill 2024 Cyfrol 95 Rhif 2

## Yr Atgyfodiad Mawr

Ar ddydd Gwener y Groglith y mae gwahoddiad inni ymuno yng ngorymdaith Pasg yr Eglwys Newydd ac ar y daith honno byddwn yn canolbwyntio ar farwolaeth aberthol yr Iesu trosom. Yna, ar ddydd Sul y Pasg byddwn yn dathlu atgyfodiad yr Arglwydd. Er ein bod yn gwahaniaethu rhwng y ddau ddigwyddiad, mewn gwirionedd un digwyddiad ydynt, y naill yn llifo i'r llall. Ni ddeallwn y Groes heb yr Atgyfodiad ac ni ddeallwn yr Atgyfodiad heb y Groes. Y mae'r naill a'r llall yn annatod glwm. Mae'r Atgyfodiad yn cyflawni'r hyn yr oedd Iesu wedi ei broffwydo amdano ei hun a'i waith ar y ddaear. Dywedodd Iesu,

*"Pan gyrhaeddwn ni Jerwsalem, bydda i, Mab y Dyn, yn cael fy mradychu i'r prif offeiriaid a'r arbenigwyr yn y Gyfraith. Byddan nhw'n rhoi dedfryd marwolaeth arna i, ac yna'n fy rhoi yn nwylo'r Rhufeiniaid. Bydd y rheiny yn gwneud sbort am fy mhen, fy chwipio a'm croeshoelio. Ond yna ddeuddydd wedyn bydda i'n dod yn ôl yn fyw!"*

*Mathew 20:18-20*

**(parhad ar dudalen 2)**

**(parhad o'r dudalen flaen.)**

## Annisgwyl

Er i'r Iesu ddweud wrth y disgyblion am yr Atgyfodiad, yr oedd yr hyn ddigwyddodd yn gwbl annisgwyl i bawb. Oherwydd, yn ôl eu profiad a'u dealltwriaeth hwy nid oedd neb yn dod yn ôl yn fyw ar ôl marw. Ond dyma yn union ddigwyddodd yn hanes Iesu ac mae'r digwyddiad hwn wedi newid hanes dynoliaeth. Mae'r atgyfodiad yn profi mai Iesu yw Mab Duw a'r Meseia yr oedd y proffwydi wedi ysgrifennu amdano. Profa bod yr Iesu yn berffaith, oherwydd canlyniad pechod yw marwolaeth. Ni phechodd Iesu ac felly nid oedd gan farwolaeth hawl arno. Profa hefyd bod yr Iawn a dalodd Iesu am ein pechodau ar y groes yn ddigonol i ddod â maddeuant inni .

Dywedodd Iesu wrth Martha,

*"Fi ydy'r atgyfodiad a'r bywyd. Bydd pawb sy'n credu ynof fi yn dod yn fyw, er iddyn nhw farw; a bydd y rhai sy'n fyw ac yn credu ynof fi ddim yn marw go iawn. Wyt ti'n credu hyn?"*

*Ioan 11:25 - 26*

Dyma'r addewid trwy Martha i bawb ohonom, a thrwy gyfrwng yr atgyfodiad mae'r addewid yn troi'n ffaith.

Haleliwia, Iesu yw'r Atgyfodiad, concwerwr angau, ac y mae bywyd tragwyddol i bob un sy'n credu ynddo. Dathlwn yn orfoleddus, gan ddiolch i Dduw am ei gariad rhyfeddol tuag atom a'r gobaith sicr sydd gennym o ganlyniad i hynny.

Mi wn fod fy Mhrynwr yn fyw,
a'm prynodd â thaliad mor ddrud;
fe saif ar y ddaear, gwir yw,
yn niwedd holl oesoedd y byd:
er ised, er gwaeled fy ngwedd,
teyrnasu mae 'Mhrynwr a'm Brawd;
ac er fy malurio'n y bedd
ca'i weled ef allan o'm cnawd.

Wel, arno bo 'ngolwg bob dydd,
a'i daliad anfeidrol o werth;
gwir awdur, perffeithydd ein ffydd,
fe'm cynnal ar lwybrau blin serth:
fy enaid, ymestyn ymlaen,
na orffwys nes cyrraedd y tir,
y Ganaan dragwyddol ei chân,
y Saboth hyfrydol yn wir.

*THOMAS JONES, 1756-1820*
*(Caneuon Ffydd 547)*


## Newyddion

### Cleifion

Cofiwn am ein haelodau sydd yn derbyn triniaethau ar hyn o bryd, sef Annick Moseley ac Arwel Peleg Williams. Cofiwn hefyd am ein cyd aelodau sydd mewn cartrefi gofal neu sy'n gaeth i'w cartrefi, sef Rosaline Bowen, Delor Wedlake a Mair Evans.

### Dydd Gweddi'r Byd

Cynhaliwyd gwasanaeth Dydd Gweddi'r Byd ar gyfer eglwysi Cylch Caerdydd ar Fawrth 1af 2024 yn yr Eglwys Fethodistaidd, yn yr Eglwys Newydd. Paratowyd y gwasanaeth eleni gan ferched Palesteina.




Roedd hwn yn gyfle amserol i ni yma yng Nghaerdydd i gofio am ferched y wlad honno ac i weddïo dros y sefyllfa ddyrys yn y Dwyrain Canol.

Cymerwyd rhan gan aelodau capeli Cymraeg Caerdydd a chafwyd cefnogaeth gref ganddynt i gyd. Diolch i'r tîm o Ebeneser a fu'n paratoi'r capel, y festri a'r baned ac i bawb fu wrthi'n helpu. Mae'n diolch hefyd i aelodau capeli eraill Caerdydd am gyfrannu'r holl gacen-nau blasus iawn!

Cadwch olwg ar Y Llusern a'n cyfryngau cymdeithasol am wybodaeth am wasanaeth Dydd Gweddi'r Byd 2025.

### Gŵyl Ddewi

Cafwyd oedfa deuluol arbennig ar y 3ydd o Fawrth gyda phlant ac oedolion yn cymryd rhan. Yn dilyn yr oedfa cawsom gawl, pice ar y maen a chacennau i ddathlu, a chyfle i godi arian ar gyfer ein helusen am eleni, Ffynhonnau Byw. Llwyddwyd i godi tua £200.

### Carreg filltir

Penblwydd Hapus arbennig iawn i Annick Moseley, ddathlodd ei phenblwydd yn 80 oed ar y 5ed o Fawrth yng nghwmni'r teulu. Pob dymuniad da iddi. A phenblwydd hapus i Tudur Jones ymunodd a chlwb 60 ar 16eg o Fawrth.

### Cydymdeimlad

Trist iawn oedd clywed y newydd am farwolaeth Rhiannon Stanley Jones, Y Rhath, ar y 27ain o Chwefror. Cydymdeimlwn gyda Siwan, Sioned a'r teulu cyfan yn eu colled a'u hiraeth. Cynhelir ei hangladd yn Nghapel y Wenallt, Amlosgfa Thornhill ar 27ain o Fawrth am 11.00 y bore.

Bu Helen Hilling farw ar y 7fed o Fawrth ar ôl cyfnod hir o salwch. Pob cydymdeimlad â Shelagh a David a'r teulu cyfan yn eu colled a'u hiraeth. Cynhelir yr angladd ar 2ail o Ebrill yn Nghapel y Wenallt, Amlosgfa Thornhill am 11.30 y bore.

| Teyrnged | *Eira Jones 1932 - 2023* |
|---|---|



Roedd Eira Jones yn aelod a diacon yn eglwys Ebeneser, Caerdydd, ac yn berson arbennig iawn. Roedd yn esiampl i bawb ohonom oherwydd ei natur ddiymhongar, dawnus, addfwyn a hael. Neilltuodd ei doniau, ei hamser a'i hadnoddau i hyrwyddo gwaith teyrnas Iesu Grist ac y mae ei marwolaeth yn golled i ni fel eglwys.

***Ebeneser***

Ganed Eira yng Nghaerdydd (1932), ac fe aeth i ysgolion Birchgrove, Ysgol Uwchradd Cathays ac yna i Brifysgol Caerdydd, lle yr enillodd radd mewn Cerddoriaeth a Chymraeg. Er mai Saesneg oedd iaith yr aelwyd, pan yn ei harddegau dechreuodd ymddiddori yn y Gymraeg. Dywedodd athro wthi y byddai'n fuddiol iddi fireinio ei Chymraeg trwy fynychu eglwys. Awgrymodd y byddai Ebeneser, lle roedd y Parch. Dr. Emlyn Jenkins yn weinidog, yn lle da. Dechreuodd fynychu gyda'i thad ac o fewn dim roedd yn gwbl rhugl. Bu'n ddisgybl yn nosbarth ysgol Sul merched Mrs. Daniel, a bu hi'n ddylanwad mawr arni. Ar gychwyn y 1950au bu'n mynd i gyfarfodydd cenhadol yn y Barri. Daeth i ffydd gadarn yn Iesu fel Arglwydd a Gwaredwr.

***Cysegru Doniau***

Trwy gydol ei hoes fe ddefnyddiodd ei doniau er mwyn hyrwyddo'r Efengyl Gristnogol a rhannu'r newyddion da am Iesu gydag eraill. Enghraifft o hyn oedd ei doniau cerddorol. Roedd yn bianydd ardderchog. Cyfeiliodd yn yr ysgol Sul, mewn gwasanaethau, mewn cyrddau gweddi ac yng Nghymdeithas y Chwiorydd.

***Madagascar***




Pan yn oedolyn ifanc teimlodd fod yr Arglwydd yn ei galw i'r genhadaeth dramor. Yr oedd dau brif reswm am hyn; 1. Mae Duw yn galw pobl ifanc yn aml i fentro yn eu ffydd. 2. Roedd Gwyneth Evans, a oedd yn aelod yn Ebeneser, wedi mynd yn genhades i Madagascar. Roedd Eira yn llythyru gyda hi ac fe aeth am gyfnod draw i Madagascar i weld y gwaith yr oedd Gwyneth yn ei gyflawni. Heb os nac oni bai fe fyddai hi wedi mynd yno fel cenhadwr oni bai am waeledd ei mam. O ganlyniad bu rhaid i Eira aros yma yng Nghaerdydd yn gofalu amdani. I raddau roedd yn siom iddi na chafodd fynd yn genhades, ond fe arhosodd y sêl genhadol yn ei chalon trwy gydol ei bywyd.

***Diacones***

Hi hefyd oedd Diacon benywaidd cyntaf Ebeneser. Fe'i hetholwyd ynghŷd â Malcolm Thomas a Dr. Denzil Davies ym 1970. Tystiai Eira y bu hwn yn brofiad lled frawychus iddi gan mai hi oedd y fenyw gyntaf i gamu i mewn i fyd patriarchaidd y ddiaconiaeth. Fe'i rhybuddiwyd hi cyn y cyfarfod cyntaf na ddylai ddweud dim. Dim ond gwrando a dysgu. Yn y cyd-destun hwn roedd hi yn arloeswr lwyddodd i newid yr agweddau tuag at ferched o fewn i strwythurau gwrywaidd ein heglwysi. Ac mae cymaint o fendithion wedi dod i'n heglwysi yn sgîl hyn.  Dyma lun o Eira a Malcolm yn dathlu 50 mlynedd fel diaconiaid ym mis Mawrth 2020.



**Cyfraniad Mawr**

Ni allaf ymhelaethu ar yr hyn oll a wnaeth, dim ond nodi yn gryno. Fel diacon bu yn is- ysgrifennydd ac yn gofnodydd Cyfarfodydd y Diaconiaid am ddegawdau. Roedd  yn gweld pwysigrwydd gwaith Iesu  yn lleol ac yn fyd-eang ac fe wnaeth ei gorau i'w hyrwyddo.  O ran  cymeriad,  roedd yn llawen, annwyl a hynaws. Ysgrifennodd lythyrau a chardiau dirifedi at bobl. Roedd yn ysgogi Cristnogion ifanc i ddal at y ffydd ac yn gweddïo drostynt yn ddyfal. Cymerai ran yn gyson yn gyhoeddus, arweiniai oedfaon, ac yr oedd yn un o ffyddloniaid y cwrdd gweddi. Darllenai air Duw yn ddyddiol. Ysgrifennai farddoniaeth i nodi digwyddiadau ym mywyd Ebeneser – cymysgfa o'r dwys a'r doniol – a thynnai goes rhai o ganlyniad i droeon trwstan. Roedd yn aelod allweddol o Gymdeithas y Chwiorydd ac yn rhan o'r trefnu a'r paratoi. Ymwelai yn gyson â'r cleifion. Cynrychiolodd Ebeneser mewn cyfarfodydd eciwmenaidd ac yng ngweithgareddau Undeb yr Annibynwyr. Mynychai yn gyson y cyfarfodydd blynyddol. Un o'i diddordebau oedd pwythwaith ac fe roddai ei gwaith wedi ei fframio yn rhodd er mwyn nodi achlysuron arbennig.  Cwpled a bwythodd yn aml oedd, "Duw biau edau bywyd, a'r hawl i fesur ei hyd."

Diolchwn am ei bywyd o wasanaeth diflino, a gwnawn hynny yng ngoleuni atgyfodiad Iesu, ei fuddugoliaeth dros angau a'r gobaith tragwyddol a ddaw i ran pawb sy'n credu ynddo.

"Ond yn y pethau hyn i gyd y mae gennym fuddugoliaeth lwyr trwy'r hwn a'n carodd ni. Yr wyf yn gwbl sicr na all nac angau nac einioes, nac angylion na thywysogaethau, na'r presennol na'r dyfodol, na grymusterau nac uchelderau na dyfnderau, na dim arall a grëwyd, ein gwahanu ni oddi wrth gariad Duw yng Nghrist Iesu ein Harglwydd." (Rhuf 8:31-39)

Alun Tudur

## Cenedl

Mae Gŵyl Ddewi yn gyfle inni gofio'r pethau gorau sy’n perthyn inni fel cenedl, gan ddiolch i Dduw am y bendithion yr ydym wedi eu derbyn ganddo fel treftadaeth. Ein tir a’n hanes, ein hiaith a’n llenyddiaeth, ein barddoniaeth a’n cerddoriaeth. Y mae’n gyfle hefyd inni gadarnhau ein hunaniaeth fel cenedl a’r hyn sy’n ein gwneud yn unigryw. Ond rhaid gwneud hynny yn ddoeth ac yn ystyriol ac nid yn hnangyfiawn a ffroenuchel gan fynd i feddwl ein bod ni’n rhagorach na chenhedloedd eraill. Fel y gwelwn yn y byd heddiw, gall cenedlaetholdeb cul hunandybus arwain at wrthdaro a rhyfel, felly–mae’n bwysig gweld ein hunain fel rhan o batrwm ehangach, gan hybu cydweithrediad a pharch tuag at bob cenedl. Un genedl fechan ydym ni ym mrodwaith lliwgar cenhedloedd y byd.

Fel Cristnogion Cymraeg rydym yn dathlu a diolch yn arbennig am ein treftadaeth Gristnogol y gallwn ei holrhain yn ôl dros y canrifoedd o ddyddiau Dewi hyd yn awr. A thrwy’r cyfnod hwnnw bu’r dystiolaeth Gristnogol yn ddi-dor a’i dylanwad yn fawr ar ein cenedl. Mae’r naill genhedlaeth ar ôl y llall wedi trosglwyddo mantell y ffydd ac y mae’r Arglwydd wedi bendithio’r dystiolaeth honno. A ninnau heddiw sydd yn gwisgo’r fantell honno.

Daeth llanw a daeth trai dros y canrifoedd ond parhau yr ydym i rannu’r newyddion da. Byw mewn cyfnod o drai ysbrydol rydym ni heddiw ond yr un yw ein braint fel Cristnogion, fel erioed, i fyw a chyhoeddi’r Efengyl ymhlith ein cyd Gymry. Y gymwynas fwyaf un y gallwn ni ei gwneud gyda’n cenedl yw rhannu Iesu Grist fel Arglwydd a Gwaredwr gan ei hannog i gredu ynddo a gwneud disgyblion.

**CYMRU**

Fy ing enfawr, fy ngwynfyd, - fy mhryder,
Fy mharadwys hyfryd;
Ei charu’r wyf yn chwerw hefyd,
A’i chasáu’n serchus o hyd.

Alan Llwyd

“O deued dydd pan fo awelon Duw
Yn chwythu eto dros ein herwau gwiw.”

Lewis Valentine

Gweddïwn, gweithiwn ac ymdrechwn i weld y dydd hwnnw.




## Beth mae'r Iesu yn dysgu am weddi?

Mae treulio amser gyda Duw mewn gweddi yn y lle cyntaf yn rhoi clod i Dduw ond mae hefyd yn llesol i ni yn ysbrydol ac yn feddyliol. Y mae gweddïo a datblygu ein harfer o weddïo'n gyson cystal â gwell na'r holl therapi a chyngor a gawn ynglŷn â iechyd meddwl. Y rheswm am hyn yw ein bod wedi ein creu i fyw mewn perthynas ddyddiol gyda Duw, y creadur gyda'r crëwr mewn cyfeillgarwch agos. Os nad ydym yn gwneud hynny ni fyddwn fyth yn canfod cyflawnder a phwy ydym go iawn.

**Yn Exodus pennod 34 fe gawn un o'r hanesion am Moses.**

*9 Pan ddaeth Moses i lawr o ben Mynydd Sinai gyda dwy lechen y dys-*
*tiolaeth yn ei law, doedd e ddim yn sylweddoli fod ei wyneb wedi bod yn*
*disgleirio wrth i'r ARGLWYDD siarad ag e. 30 Pan welodd Aaron a phobl Isra-*
*el Moses yn dod, roedd ei wyneb yn dal i ddisgleirio, ac roedd ganddyn nhw*
*ofn mynd yn agos ato. 31 Ond dyma Moses yn galw arnyn nhw, a dyma Aa-*
*ron a'r arweinwyr eraill yn dod yn ôl i siarad ag e..*
*33 Pan oedd Moses wedi gorffen siarad â nhw, dyma fe'n rhoi gorchudd*
*dros ei wyneb. 34 Ond pan fyddai'n mynd i mewn i siarad â'r ARGLWYDD,*
*byddai'n tynnu'r gorchudd i ffwrdd nes byddai'n dod allan eto. Wedyn*
*byddai'n dweud wrth bobl Israel beth roedd yr ARGLWYDD wedi'i orchymyn*
*iddo, 35 a byddai pobl Israel yn gweld wyneb Moses yn disgleirio. Yna*
*byddai'n rhoi'r gorchudd yn ôl dros ei wyneb nes byddai'n mynd yn ôl i*
*siarad â'r ARGLWYDD eto."*

Pan ddychwelai Moses wedi iddo fod ym mhresenoldeb yr Arglwydd roedd ei wyneb yn disgleirio. Gellid gweld ar ei wyneb ei fod wedi bod ym mhresenoldeb Duw. Mae gweddi yn gadael ei ôl arnom, ar ein meddwl, ar ein hysbryd, ar ein dealltwriaeth o'n ffydd ac o'r byd rydym yn byw ynddo.

Hoffwn eich herio. Beth am inni yn ystod yr wythnos hon roi 10 munud bob dydd i dreulio amser yng nghwmni Duw? Darllenwch adnod neu emyn i arwain eich meddwl. Gweddïwch. Siaradwch gyda Duw. Os ydych yn rhedeg allan o bethau i'w dweud arhosoch yn dawel ym mhresenoldeb yr Arglwydd tan ddiwedd y 10 munud. Rhoddaf her weddi arall y tro nesaf.

**Beth mae'r Iesu yn ei ddweud am weddi? Dywed nifer o bethau. Dyma ddau ohonynt:**

**1. Enw'r Iesu**

Wrth i ni weddïo rydym i wneud hynny bob amser yn enw Iesu Grist. Pam hynny? Oherwydd Iesu yw'r ffordd i berthynas gyda Duw.
Dywedodd fel hyn yn Ioan 15:

Nid chwi a'm dewisodd i, ond myfi a'ch dewisodd chwi, a'ch penodi i fynd allan a dwyn ffrwyth, ffrwyth sy'n aros. Ac yna, fe rydd y Tad i chwi beth bynnag a ofynnwch ganddo yn fy enw i. (Ioan 15:16. BCND)

Felly, yr unig ffordd y gallwn weddïo ar Dduw yw yn enw'r Iesu. Ni allwn ddod at Dduw a dweud, "Arglwydd rwy'n dod atat ti yn gofyn hyn a'r llall oherwydd dwi'n dipyn o foi a dwi'n meddwl fy mod haeddu i ti wrando arnaf. Dwi wedi gwneud hyn, llall ac arall a dwi'n credu fod arnat ti un neu ddau o bethau i mi. Felly gwranda ar fy ngweddi."

**Dywedodd Iesu stori am berson yn gwneud hynny yn Luc 18**

*9 Dwedodd Iesu y stori yma wrth rai pobl oedd yn meddwl eu bod nhw eu hunain
mor dduwiol, ac yn edrych i lawr eu trwynau ar bawb arall: 10 "Aeth dau ddyn i wed-
dïo yn y deml. Pharisead oedd un ohonyn nhw, a'r llall yn ddyn oedd yn casglu tre-
thi i Rufain. 11 Dyma'r Pharisead yn sefyll ar ei draed yn hyderus, a dyma oedd ei
weddi: 'O Dduw, dw i yn diolch i ti mod i ddim yr un fath â phobl eraill. Dw i ddim
yn twyllo na gwneud dim byd drwg arall, a dw i ddim yn gwneud pethau anfoesol.
Dw i ddim yr un fath â'r bradwr yma! 12 Dw i'n ymprydio ddwywaith yr wythnos ac
yn rhoi un rhan o ddeg o bopeth sydd gen i i'r deml.'*

*13 "Ond roedd y casglwr trethi wedi mynd i sefyll mewn rhyw gornel ar ei ben ei
hun. Doedd e ddim yn meiddio edrych i fyny hyd yn oed. Yn lle hynny roedd yn cu-
ro'i frest mewn cywilydd. Dyma oedd ei weddi e: 'O Dduw, wnei di faddau i mi. Dw
i'n bechadur ofnadwy.'*

*14 "Dw i'n dweud wrthoch chi mai'r casglwr trethi, dim y Pharisead, oedd yr un
aeth adre a'i berthynas gyda Duw yn iawn. Bydd Duw yn torri crib pobl falch ac yn
anrhydeddu'r rhai gostyngedig." (Luc 18:9-14)*

Nid oes gen i unrhyw haeddiant ger bron Duw trwy fy ngallu na fy nuwioldeb fy hun. Rhaid pwyso ar ei ras rhyfeddol. Yr hyn sy'n ein gwahanu ni oddi wrth Dduw yw ein pechod, ein hanufudd-dod a'n hunanoldeb. A'r hwn sydd wedi delio gyda hyn ydy Iesu. Mae wedi dinistrio yr hyn sy'n ein gwahanu oddi wrth Dduw, trwy ei fywyd perffaith, ei farwolaeth a'i atgyfodiad, fel y gallwn ddod at yr Arglwydd yn hyderus. "Mae drws agored trwyddo Ef i mewn i'r nef i mi." A dim ond yn enw'r Iesu y mae gennym haeddiant i ddod ger bron Duw y Tad mewn gweddi. (Gw. hefyd Ioan 14:13, 14:14, 15:16)

## 2. Peidio bod fel y paganiaid

Mae'r Iesu, hefyd, yn rhoi cyngor i'w ddisgyblion i beidio â gweddïo fel y paganiaid yn hir ac yn llawn rhwysg:

*[5]"A pheidiwch gweddïo fel y rhai sy'n gwneud sioe o'u crefydd. Maen nhw wrth eu boddau pan mae pobl yn edrych arnyn nhw yn codi i weddïo yn y synagogau neu ar strydoedd prysur. Credwch chi fi, dyna'r unig wobr gân nhw! [6]Pan fyddi di'n gweddïo, dos i ystafell o'r golwg, cau y drws, a gweddïo ar dy Dad sydd yno gyda ti er dy fod ddim yn ei weld. Wedyn bydd dy Dad, sy'n gweld pob cyfrinach, yn rhoi dy wobr i ti. [7]A phan fyddwch chi'n gweddïo, peidiwch mwydro ymlaen yn ddiddiwedd fel mae'r paganiaid yn gwneud. Maen nhw'n meddwl y bydd Duw yn gwrando am eu bod yn gweddïo mor hir. [8]Peidiwch chi â bod fel yna. Mae'ch Tad chi'n gwybod yn union beth sydd ei angen arnoch chi cyn i chi ddweud gair. (Luc 11:2-4)*

"Mwydro ymlaen." Ha, Ha! Mae yna gwestiwn yn codi ynglŷn â gweddïau hirwyntog. Yn y gorffennol roedd arweinyddion Cristnogol yn cael eu canmol am godi am 4.00 yn y bore a gweddïo am ddwy neu dair awr. Ond wrth gwrs roedd hyn yn digwydd yn y dirgel. Prif ergyd Iesu oedd na ddylid gwneud perfformans o weddi gyhoeddus ac mai peth pwysig i'w ddilynwyr yw gweddïo yn gyson yn y dirgel. (Nid yw hyn wrth gwrs yn gwahardd gweddïo yn gyhoeddus.)

Nid gweddïau rhwysgfawr cyhoeddus mae Duw yn ei geisio ond yn hytrach ein calon mewn gweddi ddirgel. Gwnewch yn siŵr eich bod yn gweddïo yn gyson yn y dirgel. Gwnewch amser i hyn bob dydd. Ben bore, amser cinio gyda'r nos, ond gwnewch bwynt o weddïo pan mai dim ond chi a'r hollalluog sydd yn gwybod.

Y tro nesaf byddwn yn dechrau edrych a'r Weddi'r Arglwydd fel canllaw gweddi.



## ***Cyfweliad efo Eira Jones yn 2006 gan Esyllt Jones (pan yn 9 oed)***

*Pan oeddwn ym Mlwyddyn 5 yn Ysgol Y Wern bu'n rhaid i fi ysgrifennu prosiect ar "Fy Ardal", ac roedd angen cynnwys rhywfaint am yr hanes lleol. Gan fod Eira Jones yn byw yn agos iawn ataf, fe drefnais fynd i'w holi yn ei chartref.*

*Cefais groeso mawr ganddi wrth gwrs, ac roedd hi'n amyneddgar iawn yn rhoi atebion llawn i'r ychydig gwestiynau parod roeddwn wedi eu paratoi. A dyma beth sgwennais nôl yn 2006 wedi i mi ei holi.*



Rai strydoedd i ffwrdd o'n tŷ ni mae Rhydhelig Avenue, wedi ei enwi ar ôl fferm oedd yno ar un adeg. Mae ein cyfaill Eira Jones yn byw yno a hi yw un o Ysgrifenyddion ein capel ni.
Mae Eira wedi byw yn ei thŷ ers cyn dechrau'r Ail Ryfel Byd, a hi oedd un o'r bobl cyntaf i fyw ar y stryd.
Fe wnes i ei holi er mwyn deall sut oedd bywyd yn yr ardal hon ers talwm a gweld beth oedd wedi newid ers hynny.

***Pryd symudoch chi i`r Waun?***
Symudais i`r Waun pan oeddwn i`n 7 oed. Fe brynodd fy rhieni y tŷ hwn rydw i'n byw ynddo heddiw yn 1939, ychydig fisoedd cyn cychwyn y rhyfel. Cyn hynny roeddem yn byw yn y Rhath.

***Beth oedd enw eich ysgol gynradd a uwchradd?***
Enw fy ysgol gynradd oedd Ysgol Birchgrove a fy ysgol uwchradd oedd Cathays.

***Faint o athrawon oedd yn yr ysgol?***
Roedd 8 o athrawon yn yr Ysgol Gynradd, un i bob dosbarth.

***Faint oedd yn y dosbarth?***
Roedd hyd at 35 ym mhob dosbarth.

***Oedd yr ysgol yn bell neu`n agos?***
Roedd yr ysgol yn agos iawn.

***Oeddech yn mynd i'r ysgol mewn car, bws neu cerdded?***
Roeddwn i'n cerdded i'r ysgol gan ei bod mor agos. A doedd dim ysgolion Cymraeg ar gael yr adeg honno.

***A oeddech yn cerdded i`r capel?***
Roeddwn i`n cerdded i bron bobman heblaw'r capel. Roedd fy Nhad yn mynd i Ebeneser a Mam yn mynd i'r eglwys. Mi es i efo Mam am gyfnod, yna cychwyn mynd i'r capel gyda Nhad yng nghanol y ddinas.

***Faint o Gymraeg oedd i'w glywed yn y Waun ers talwm?***
Fawr ddim, a dweud y gwir, dim ond ambell i berson oedd wedi symud yma i fyw o'r tu allan i Gaerdydd. Dyma ddigwyddodd i ni. Symudodd fy Nhad i Gaerdydd i weithio yn Howells. Roedd e'n siarad Cymraeg ond doedd fy Mam ddim yn medru'r Gymraeg gan ei bod hi'n dod yn wreiddiol o'r pentref hwn.

***Lle roeddech chi`n mynd i weld y Meddyg?***
Roedd y feddygfa mewn tŷ cyffredin ar Heathwood Rd.

***Faint o siopau oedd yno?***
Dim archfarchnadoedd, dim ond siop bwyd a losin. Byddem hefyd yn cael llysiau gan George Tucker, ffarmwr lleol.

***A oedd swyddfa bost yno?***
Oedd, roedd yna swyddfa bost ar Coronation St.

***Oedd fferyllfa yno?***
Oedd, roedd fferyllfa yn y pentref.

***Lle oeddech chi'n chwarae?***
Roeddwn yn chwarae ar y caeau lle mae`r ysbyty heddiw, sef Heath Park. Yn ystod yr Ail Ryfel Byd roedd milwyr yn byw yn Heath Park.

***Oedd llawer o geir ar y strydoedd?***
Na, doedd dim llawer o deuluoedd yn berchen ar gar.

***Oedd parc Gerddi Llwynbedw yno?***
Oedd, ac roedd maes bowlio a tennis yno, fel y mae heddiw.

***Oedd Llyfrgell yn y pentref?***
Oedd, yn lle mae cyffordd Gabalfa heddiw.



***Oedd bywyd yn anodd blynyddoedd yn ôl?***
Na, ddim yn anodd iawn i fi fel plentyn, er falle fod Nhad a Mam wedi celu rhywfaint oddi wrthyf.

***Oedd llawer o eira yn y gaeaf?***
Oedd, mwy nag a gawn dyddiau hyn. Roedd eira 1947 yn enwedig o drwm. Roedd yna lawer iawn o eira ar y stryd ac roedd rhywun wedi gwneud twnnel i ni gael cerdded drwyddo.

***A beth sydd wedi newid fwyaf dros y blynyddoedd?***
Mae tai newydd wedi eu codi, mae`r ysbyty yma, a chyffordd Gabalfa, a'r ceir.

---

## Ffynhonnau Byw



Cofiwch ein bod wedi mabwysiadu elusen ddewisedig yr Undeb, sef Apêl Cymorth Cristnogol Ffynhonnau Byw.
Mae rhai cynlluniau eisoes ar y gweill i godi arian, a bydd mwy i'w adrodd yn fuan.

# Cyfarfodydd Angor

**CANOLFAN REACH**
**GRANGETOWN**

Mae cyfarfodydd Angor, Grangetown wedi bod yn parhau dros y misoedd dwetha a mae yna lot i ddiolch amdano!

Dyn ni wedi gorffen cyfres ‘Caru Duw, caru ein gilydd a charu Grangetown’ ble bu cyfle i ystyried ein perthynas efo Iesu a sut mae hynny yn siapio ein rôl ni yn y gymuned. Diolch i bawb siaradodd: Elliot Mayor, Gwilym Jeffs, Emma Mayor, Cynan Llwyd a Carys Mair.

Mae sawl person newydd wedi ymuno â'r band i helpu arwain yr addoliad..

Mae'r adeilad rydym ynddo yn dal i deimlo’n rhy fach rhwng y gwaith plant a'r cwrdd

Dyn ni wedi bod yn cyd fwyta ar y 3ydd Sul yn Grangetown a chael cyfle gwych i gymdeithasu, gwahodd wynebau newydd a chreu cysylltiadau.

Plîs ymunwch mewn gweddi gyda ni am y misoedd nesaf a'r pethau isod:

Cydlynu a dechrau clwb plant yn yr ardal - cyfle gwych i ddatblygu’r gwaith plant yn ehangach.

Gwasanaeth Gwener y Groglith ar y cyd efo Eglwysi de'r ddinas.

Siaradwyr wythnosau nesaf: Sion Gwyn, Heulwen Davies

Dal i chwilio am leoliad arall amgenach yn Grangetown i'r dyfodol.

> *Fi sy'n gwybod beth dw i wedi'i gynllunio ar eich cyfer chi,” meddai'r ARGLWYDD. “Dw i'n bwriadu eich bendithio chi, dim gwneud niwed i chi. Dw i am roi dyfodol llawn gobaith i chi.*
>
> *(Jeremeia 29:11 beibl.net)*

**Gwasanaethau ar CD**

Os hoffech gael copi o'r gwasanaethau ar y Sul ar CD, cysylltwch gyda Tudur Jones.

**Bwydydd sychion a thun**

Mae elusen Enfys Gobaith yn ddiolchgar iawn o'r bwyd yr ydych wedi eu cyfrannu yn ystod y misoedd diwethaf. Maent yn cael eu rhoi yn gyson i'r anghenus yma yng Nghaerdydd. Diolch i chi am eich haelioni. Byddwn yn casglu bwydydd sychion yn ystod yr wythnos gyntaf lawn o bob mis. Os hoffech gyfrannu, tuniau llysiau, ffrwythau, cig, pysgod, cawl, ffa ayyb; pasta, reis, te, coffi, llaeth UHT byddem yn dra diolchgar. Cysylltwch gyda Tudur Jones er mwyn trefnu casglu.



**Y Ganolfan Glyd**

Byddai'r Tabernacl yn y Ais yn gwerthfawrogi cyfraniadau o siwmperi, sannau a chotiau. Cysylltwch â John Hayes. (john_hayes1@hotmail.com).

**E-bost:** Os hoffech dderbyn ebost wythnosol Ebeneser anfonwch neges at: eben-esercaerdydd1@gmail.com

**Recordiadau**

Gellir gwrando ar holl bregethau Eben-eser ar wefan Soundcloud. Maent yn cael eu gosod yno'n wythnosol. Diolch i Tudur. Gellir gwylio ffrwd byw o oedfa bore Ebeneser ar ein tudalen Facebook ac yna ar Youtube. Diolch yn fawr iawn i Seren Jones am ei help.

**Tîm Digidol**

Rydym yn chwilio am aelodau i helpu gydag ochr ddigidol bywyd Ebeneser. Bellach yn wythnosol y mae elfennau digidol sydd yn rhan bwysig o'n gwaith a'n tystiolaeth. e.e., PowerPoints, ffrwd byw, podlediad, Youtube, Trydar ('X'), Gweplyfr (Facebook), cryno ddisgiau o'r oedfaon a'r wefan.

**Gosod a Gofal**

Hoffem ddiolch i'r holl aelodau sydd yn cynorthwyo gyda gosod popeth yn ei le ar fore Sul. Diolch i Eynon am baratoi'r rota ac i Tudur, John a Petra am eu holl help.

---

## CYFRANIADAU

Diolch yn fawr iawn i bawb ohonoch sydd wedi anfon cyfraniadau at waith Eglwys Ebeneser yn ystod 2023. Gwerthfawrogwn yn fawr iawn eich haelioni tuag at waith hollbwysig yr Arglwydd Iesu trwy gyfrwng Ebeneser. Mae nifer o aelodau bellach yn cyfrannu'n fisol trwy archeb banc. Os nad ydych eto wedi cael cyfle i gyfrannu hoffem eich gwahodd i barhau i gyfrannu at waith yr eglwys, yn ystod 2024, un ai: trwy siec yn daladwy i Eglwys Ebeneser Caerdydd, at y Trysorydd, Eilir Jones, 9 Clos y Bryn, Caerdydd. CF14 6TR. Neu, taliad yn uniongyrchol i gyfrif banc HSBC yr Eglwys – cod sortio 40-16-35, rhif y cyfrif 81042882, gan nodi eich enw fel cyfeirnod.



# Calendr

Cynhelir oedfa’r bore yng Nghanolfan yr Eglwys Newydd, Old Church Rd, CF14 1AD.

Cynhelir oedfa’r pnawn yng nghapel y Methodistiaid, Penlline Rd, CF14 2AA.

Cynhelir Angor ar yr ail ar pedwerydd Sul o bob mis yn Reach Centre, Avondale Street, Grangetown.

Pob nos Lun am 7.30 y,h., cynhelir y cwrdd gweddi yng nghapel y Methodistiaid ac ar Zoom. Dolen yn yr e-bost wythnosol.

## Suliau Ebrill a Mai

**7 Ebrill** - 10.00yb yn CEN a 3.00yp Yr Eglwys Fethodistaidd. Cymun yn y pnawn. Oedfaon dan ofal Alun.
**14 Ebrill** - 10.00yb yn CEN a 3.00yp Yr Eglwys Fethodistaidd. Oedfaon dan ofal Alun.
**21 Ebrill** - 10.00yb yn CEN a Llanllanast a 3.00yp Yr Eglwys Fethodistaidd. Oedfaon dan ofal Alun. Cymun yn y bore.
**28 Ebrill** - 10.00yb yn CEN: Heulwen Davies a 3.00yp Yr Eglwys Fethodistaidd: Sian Meinir.

************************************************************************

**5 Mai** - 10.00yb yn CEN a 3:00yp Yr Eglwys Fethodistaidd. Cymun yn y pnawn. Oedfaon dan ofal Alun
**12 Mai** - 10.00yb yn CEN a 3.00yp Yr Eglwys Fethodistaidd. Oedfaon dan ofal Alun.
**19 Mai** - 10.00yb yn Llanllanast i bawb. Dathlu penblwydd yr Eglwys (Y Pentecost) yn CEN a 3.00yp Yr Eglwys Fethodistaidd. Oedfaon dan ofal Alun.
**26 Mai** - 10.00yb yn CEN a 3.00yp Yr Eglwys Fethodistaidd. Oedfaon dan ofal Sian Rees.

Aelodau o gapeli Cymraeg Caerdydd gymerodd ran yng ngwasanaeth Dydd Gweddi'r Byd 2024.









Dathliad Gŵyl Ddewi





Un o gyfarfodydd Angor Grangetown.